**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Environment and Sustainability Committee**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Awst 2011

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnal ymchwiliad i **bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru.** Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried sut mae'r trefniadau datganoli presennol ar gyfer polisi ynni a chynllunio yn effeithio ar gyflawni'r 'cymysgedd ynni' y mae Llywodraeth Cymru am ei weld, fel yr amlinellir yn *Chwyldro Carbon Isel – Datganiad polisi ynni (2010)*[1] a'r *UK Renewable Energy Roadmap (2011).*[2]

- Beth yw'r goblygiadau i Gymru os bydd y cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau seilwaith mawr ar y tir mawr ac ar y môr yn parhau i fod yn fater sy'n cael ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU?
- Sut mae hyn effeithio ar gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, fel y'u nodir yn y Datganiad Polisi Ynni?
- Sut mae hyn yn effeithio ar gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael gostyngiad o 3 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn o 2011 ymlaen?
- Beth fydd yr effaith os na fydd penderfyniadau caniatáu ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a datblygiadau cysylltiedig yn cael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio Cymru?
- Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried dwy ddeiseb am ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni gwynt ar y tir mawr a'r effaith ar gymunedau lleol a seilwaith.[3]

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Chwyldro Carbon Isel – datganiad polisi ynni*, Mawrth 2010
[2] Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (a'r Llywodraethau datganoledig), *UK Renewable Energy Roadmap*, Gorffennaf 2011.
[3] *P-03-273 Cludo tyrbinau gwynt yn y canolbarth* a P–04–324 *Dywedwch Na i Tan 8 - Mae ffermydd gwynt a llinellau pŵer foltedd uchel yn difetha ein cymuned*



Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd / Environment and Sustainability Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8026
E-bost / E-mail : E&S.comm@wales.gov.uk

Bydd y materion y bydd y Pwyllgor yn dymuno eu hystyried fel rhan o'r cylch gorchwyl hwn yn cynnwys:

- Rôl y gwahanol asiantaethau caniatáu, sut maent yn perthyn i'w gilydd, a sut y gellid gwella'r system bresennol—gyda datganoli pellach a hebddo *(Comisiwn Cynllunio Seilwaith, yr Arolygiaeth Gynllunio, awdurdodau cynllunio lleol, parciau cenedlaethol. Llywodraeth Cymru, y Sefydliad Rheolaeth Morol, Asiantaeth yr Amgylchedd).*
- Y berthynas rhwng Datganiadau Polisi Ynni Cenedlaethol Llywodraeth y DU a pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol Cymru (gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 8 a chynlluniau datblygu lleol) ac a all y polisïau hyn gyflawni'r dyheadau. A oes angen cynnal adolygiad ffurfiol o Nodyn Cyngor Technegol 8?
- Cyfraniad posibl mathau gwahanol o ynni adnewyddadwy a charbon isel *(gwynt ar y môr, llanw, gwynt ar y tir, ynni dŵr, niwclear, bio-ynni/biowastraff, microgynhyrchu, prosiectau ynni cymunedol)* a'r tebygolrwydd y byddant yn gallu cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn *Chwyldro Carbon Isel – Datganiad Polisi Ynni* a'r *UK Renewable Energy Roadmap.*
- Cyfraniad posibl y mathau gwahanol hyn o ynni adnewyddadwy at gwrdd â tharged blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Rôl posibl mathau eraill o gynhyrchu ynni yng Nghymru, e.e. mathau presennol o gynhyrchu ynni gan ddefnyddio tanwydd ffosil, cynlluniau niwclear arfaethedig a thechnolegau newydd fel methan gwely glo a nwy siâl.
- Y problemau trafnidiaeth mewn perthynas â thyrbinau gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys yr effaith ar ffyrdd, traffig a thwristiaeth.

Nid oes yn rhaid i unrhyw gyflwyniadau fynd i'r afael â'r holl feysydd uchod ac mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn gwybod am berson neu sefydliad a allai fod â diddordeb yn ymchwiliad y Pwyllgor, a fyddech cystal â dangos y llythyr hwn iddynt.

Byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref 2011, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi yn eich cyflwyniad a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar, pe byddem yn eich gwahodd i wneud hynny.

Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig oherwydd mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ein gwefan fel bod cofnod cyhoeddus ohoni. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth mewn fformat sain neu fideo. Gellir cyflwyno tystiolaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond rydym yn gofyn bod sefydliadau sydd â Chynlluniau Iaith Gymraeg yn darparu ymatebion dwyieithog, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau.


Dylid anfon unrhyw gyflwyniadau at y Clerc yn E&S.comm@wales.gov.uk, neu i'r cyfeiriad uchod. Dylent gyrraedd yn ddim hwyrach na **Dydd Gwener 23 Medi 2011.**

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad/bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.
Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



**Dafydd Elis-Thomas AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**